# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 8fed Ebrill 2019

Presennol: John Davies, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes
Ymddiheuriadau: Henry Huws, Humphrey Williams.

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
    a. Archwyliad mewnol – dywedodd y Clerc ei bod wedi cadarnhau hefo Luned Fon Jones y byddai'n cyflwyno'r holl ddogfennau ar gyfer yr Archwyliad Mewnol erbyn diwedd Ebrill. Cafodd y Clerc hefyd air gan y BDO yn hysbysu y dylai popeth fod yn barod erbyn dechrau Gorffennaf.

4. **Gohebiaethau**:
    a. Darllennodd y Clerc lythyr a dderbynniodd gan Ddrws i Ddrws a oedd yn gwybyddu'r Cyngor o'u bwriad i gynnig gwasanaeth i bobl yr ardal oedd angen cludiant i feddygfa ar gyfer apointiad doctor. Roedd y prosiect wedi ei drealu llynedd yn ardal Abersoch a Llanengan – ar bwriad rwan iw cynnig hyn i ardal Pen Llyn gyfan. Gofynna Drws i Ddrws i'r Cynghorau Cymdeithas gyfrannu £500.00 y flwyddyn a fyddai wedyn yn sicrhau fod pobl yr ardal yn gallu manteisio ar y cynllun.
    Penderfynnwyd gofyn i Drws i Ddrws am ffigyrau oedd yn dangos faint o'r ardal oedd yn manteisio ar y cynllun, byddai hyn yn dangos os oedd gofyn amdano o fewn plwyf

Tudweiliog. Pasiwyd hefyd i ofyn am maentolen (gan drin y cais fel pob cais arall).

b. Derbynniodd y Clerc hysbysiad gan 'Credyd Cynhwysol' a oedd yn gwybyddu'r cyhoedd am newid yn y modd mae budd-dal Cerdyn Cynhwysol yn cael ei gyflwyno, ac yng Ngwynedd bydd y newid yn cael ei gyflwyno yn raddol dros y blynyddoedd nesaf. Penderfynnwyd i roi poster i fyny yn y Post Tudweiliog, Hysbysfwrdd Dinas a Hysbysfwrdd Garnfadryn.
c. Derbynwyd Rhaglen Waith y Cyngor , bydd gwaith draeanio yn digwydd ger Brynodol Tudweiliod a fydd yn parhau am 5 diwrnod, ac wrth Canoplfan Marchogaeth Llaniestyn a fydd yn parhau am 7 diwrnod.

5. **Unrhyw fater arall**:
    a. Cafwyd ar ddeall gan Eira Ryder Dinas fod y llwybyr ger Glan Dwr Dinas wedi cau gan ddrain a thyfiant. Roedd yn dymuno i'r Cyngor Cymdeithas ei dorri. Dywedodd Medwyn Jones fod hyn yn hollol ddibynnol ar pa ddosbarth o lwybyr troed ydodd, ac y byddai'r wybodaeth yma ar gael ar fapiau'r Cyngor. Dywedodd y Clerc y byddai yn holi Glenys Peters ynglyn a'r mapiau.
    b. Dywedodd y Clerc ei bod erbyn hyn wedi llwyddo i newid mandate y Cyngor Cymdeithas. Cafwyd ar ddeall gan y banc mai y Clerc a dau o'r cynghorwyr oedd angen i arwyddo'r sieciau – deallodd hefyd mai yr enwau sydd ganddynt ar gyfer arwyddo ydi:
    John Davies, Seimon Glyn, Sian Parri, WO Owen, Richard Willima, G Owen, Henry Huws, Medwyn Jones.
    c. Adroddodd Sian Parri a Medwyn Jones – y ddau yn ymddiriedolwyr Elusen John Edwards, fod Ymddiriedolwyr Elusen Llain Fatw wedi eu gwybyddu o'u bwriad i roi Llain Fatw ar y farchnad diwedd Ebrill oni bai fod syniad arall yn cael ei gynnig iddynt. O ganlyniad i hyn mae'n fwriad gan Sian a Medwyn gynnal cyfarfod brys i drafod y mater – bydd y dyddiad yn cael ei gyhoeddi eto.

**Cynhelir Cyfarfod Nesaf ar 13eg Mai 2019 yng Nghanolfan Tudweiliog am 7.15 o'r gloch.**